



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

# Hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned BAME

---

Dyddiad: Hydref 2018

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a chynnal prosiect sy'n anelu at wella ymgysylltiad cymunedau BAME â diwylliant ac addysg Gymraeg.

## Y CEFNDIR

Ysgogodd effaith safonau'r Gymraeg, a'r hawliau maent yn eu rhoi i ddinasyddion yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus, drafodaethau rhwng rhanddeiliaid perthnasol yng Nghasnewydd am effaith bosibl y safonau, yn ddiwylliannol ac ar y farchnad swyddi yng Nghymru. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg o'r trafodaethau hyn, yn ogystal â'r cyfle i ddatblygu strategaeth newydd ar ffurf Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg, oedd consensws bod angen i sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith o hyrwyddo'r iaith Gymraeg fod yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chynnig i bob cymuned yn y ddinas. Nid yn unig hwyluso cyfranogiad llawn gan bob cymuned ym mywyd dinesig Cymru, ond hefyd gwella cyfleoedd bywyd i unigolion yn y dyfodol.

Datgelodd adolygiad o ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) Cyngor Dinas Casnewydd fod plant o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig deirgwaith yn llai tebygol o fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg nag ysgol cyfrwng Saesneg. Ategwyd hyn gan ymgynghoriad y Cyngor. Fe wnaeth ymatebion i Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg yr awdurdod dynnu sylw at ddiffyg ymgysylltu ymddangosiadol rhwng cymuned BAME y ddinas a'r iaith Gymraeg.

Nododd rhanddeiliaid ym maes hyrwyddo'r Gymraeg nid yn unig fod cyfran is o ymgysylltu gan gymunedau BAME, ond eu bod hefyd yn cael trafferth ymgysylltu mewn ardaloedd o'r ddinas â'r cyfrannau uchaf o gymunedau BAME h.y. Pilgwenlli a Maendy.

Roedd y Cyngor yn pryderu bod unigolion a chymunedau yn colli allan ar gyfleoedd i gael budd o sgiliau iaith Gymraeg, gan arwain o bosibl at ddiffyg cydlyniant ac anfantais i grwpiau lleiafrifol yng Nghasnewydd.

## MATERION Y BU'N RHAID MYND I'R AFAEL Â NHW

Y prif rwystrau a nodwyd oedd:

1. O safbwynt ymarferwyr iaith Gymraeg, roedd bwlch yn nealltwriaeth sefydliadau iaith Gymraeg o ran sut i ymgysylltu â grwpiau BAME. Roedd hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth ddiwylliannol gyffredinol a dealltwriaeth fwy technegol o gyflawni canlyniadau teg mewn cymunedau gwahanol, h.y. mabwysiadu strategaethau ymgysylltu gwahanol gan bwysleisio negeseuon gwahanol i gyflawni canlyniadau cymaradwy (ymarfer sy'n fwy cyffredin ym maes hybu iechyd y cyhoedd ac addysg).
2. O safbwynt aelodau cymunedau BAME a sefydliadau cydraddoldeb traddodiadol, prin oedd y ddealltwriaeth o'r hawliau sy'n bodoli o ran defnyddio'r Gymraeg a sut y gellid mynychu dosbarthiadau neu ysgolion Cymraeg. Yn ogystal â hyn, roedd hefyd ddiffyg ymwybyddiaeth amlwg o fuddiannau posibl dysgu Cymraeg, yn ddiwylliannol ac yn economaidd. Roedd hyn o bosibl yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth o ddatblygiadau cyfoes ym maes y Gymraeg, yn enwedig Mesur y Gymraeg.

## GWEITHREDU

Bu modd i'r awdurdod ddefnyddio ei sefyllfa ganolog a statudol i nodi'r angen cychwynnol i newid, ond hefyd i ddefnyddio ei gysylltiadau â grwpiau a sefydliadau gwahanol i hwyluso cydweithio. Ar gyfer y prosiect hwn, cydweithiodd y Cyngor â SEWREC, y Cyngor Cydraddoldeb lleol, Menter Iaith Casnewydd a Cymraeg i Oedolion.

Y cam cyntaf oedd trefnu digwyddiad i lansio'r prosiect a ddaeth â'r holl randdeiliaid perthnasol at ei gilydd. Diben y digwyddiad oedd hwyluso trafodaeth rhwng y rheini sy'n gweithio ym maes hyrwyddo'r Gymraeg a'r rheini sy'n gweithio gyda chymunedau BAME ar sut y gallai'r sefydliadau hyn gydweithio'n well.

Cyflwynwyd cais am grant a gafodd ei gymeradwyo, a wnaeth arwain at weld Dysgu Cymraeg Gwent yn ariannu'r prosiect i gynnal 3 sesiwn ar gyfer hyd at 20 o oedolion, yn ogystal â 3 sesiwn ar gyfer teuluoedd wedi'u hanelu at hyrwyddo pob agwedd ar y Gymraeg.

Creodd y sesiynau teuluol amgylchedd a oedd yn rhoi blas ar ofal plant a gweithgareddau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'u hwyluso drwy gemau wedi'u trefnu ac adloniant i blant. Nod y sesiynau hyn yn benodol oedd normaleiddio'r Gymraeg i bawb a oedd yn bresennol drwy normaleiddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd a oedd yn defnyddio gwaith a chwarae. I'r rhieni a'r gwarcheidwaid, roeddent hefyd yn rhoi cyfle i ddysgu mwy am addysg cyfrwng Cymraeg a sut i gael mynediad iddo. Roedd y sesiynau i oedolion yn fwy strwythuredig ac yn cwmpasu pethau fel geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml yn ogystal â chyflwyniad hanesyddol a diwylliannol i'r iaith Gymraeg.

## CANLYNIAD AC EFFAITH Y PROSIECT

Canlyniadau'r prosiect oedd:

1. Mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i wella strategaethau ymgysylltu ymhlith sefydliadau sy'n hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg (partneriaid statudol a phartneriaid o'r sector gwirfoddol).
2. Sefydlwyd fframwaith cytûn ar gyfer cydweithio rhwng sefydliadau yn y dyfodol. Bydd hyn nid yn unig yn hwyluso trosglwyddo gwybodaeth yn barhaus rhwng partneriaid, ond gallai weithredu fel consortiwm ar gyfer ceisiadau cyllido yn y dyfodol yn y maes hwn.

Mae'r prosiect a'i ganlyniadau wedi sefydlu fframwaith o bartneriaeth rhwng sefydliadau sy'n arbenigwyr yn eu priod feysydd, SEWREC, y Cyngor Cydraddoldeb Lleol sydd â dros ugain mlynedd o brofiad o weithio gyda chymunedau lleiafrifol yng Nghasnewydd, Menter Iaith Casnewydd a Cymraeg i Oedolion. Mae'r bartneriaeth hon ar agor i randdeiliaid rhagweithiol eraill sy'n gweithio ym maes hyrwyddo'r Gymraeg.

Roedd canlyniadau eraill y prosiect yn cynnwys y canlynol:

- Cafodd y Cyngor brofiad o bartneriaid yn gweithio gyda phobl y tu allan i'w grŵp arferol o randdeiliaid ac felly gwnaeth feithrin y ddealltwriaeth leol a'r hyder i wneud hynny eto
- Cadarnhad nad oedd rhai pobl BAME yn ymgysylltu â'r Gymraeg ond bod diddordeb ganddynt a'u bod yn ei hystyried yn berthnasol os oeddent yn ymgysylltu'n briodol
- Cafodd y Cyngor wybodaeth am yr hyn y mae pobl yn ei feddwl am sgiliau iaith Gymraeg a Saesneg yng Nghasnewydd. Mae pobl yn pryderu am feithrin sgiliau iaith Saesneg da heb sylweddoli bod plant hefyd yn datblygu sgiliau Saesneg da drwy addysg cyfrwng Cymraeg.

## Y DYFODOL

Nid yw hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob cymuned yng Nghymru yn rhywbeth y gall un sefydliad yn unig ei gyflawni. Yn y dyfodol y gobaith yw y bydd y sefydliadau a gymerodd ran yn y prosiect hwn yn parhau i gydweithio ar brosiectau consortia sy'n ymwneud â sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fwy hygyrch.

O fewn cyd-destun a'r nod ehangach o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, Casnewydd ac ardaloedd tebyg ledled y de-ddwyrain sydd â'r capasiti mwyaf i dyfu. Bydd yn rhaid i gweithio'n galed i sicrhau bod twf yn gynhwysol ac yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol yn eu cyfanrwydd.

## **FFACTORAU TROSGLWYDDADWY**

Roedd llwyddiant y prosiect yn dibynnu'n fawr ar ymarferwyr iaith Gymraeg a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda chymunedau BAME yn cydweithio'n agos. Gallai sefydliadau eraill ddilyn yr un model ymgysylltu dwy ran lle mae ymarferwyr iaith Gymraeg yn cydweithio'n agosach â sefydliadau a rhanddeiliaid eraill i ennyn yr hyder i gyrraedd pobl o gefndiroedd BAME a gweithio gyda nhw.

### **Manylion Cyswllt**

Enw: Joseph Lewis

Sefydliad: Cyngor Dinas Casnewydd

E-bost: [Joseph.Lewis@newport.gov.uk](mailto:Joseph.Lewis@newport.gov.uk)

## **BARN COMISIYNYDD Y GYMRAEG**

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Gymraeg yn heriol ac yn uchelgeisiol, ond mae'n cynnig cyfle ardderchog i sefydliadau, cymdeithasau a chymunedau ledled Cymru gydweithio i gyflawni'r nod. Rwy'n croesawu menter ac ymagwedd ragweithiol Cyngor Dinas Casnewydd a'i bartneriaid allweddol i fynd i'r afael â diffyg ymgysylltu ymddangosiadol cymunedau BAME â'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, ac rydym yn gweld yr iaith yn ffynnu mewn byd amlieithog ac amlffydd fwyfwy.